



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Tachwedd 28 2017 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday November 28 2017 at 7pm.

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE (Cadeirydd/Chair), John Byast, Meg Roberts, Myrddin Owens, Liz Wood, Gerald Belanger, Gordon Warren, Gina Jones, Julie Hughes, Cyng/Cllr Richard Griffiths, Cyng/Cllr Richard Jones, Cyng/Cllr Aled Jones

Yn bresennol/In attendance: Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation), Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Roger Dobson (Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council).

Ymddiheuriadau/Apologies: Mike Roberts, Helen Hughes, Dafydd Roberts

1 Croeso/Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts OBE ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by Gareth W Roberts OBE and all present were welcomed.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Gareth W Roberts – Arolwg Tir Craig y Don Land Survey
Richard Griffiths - #Caru Amlwch
Julie Hughes - #Caru Amlwch
Gina Jones - #Caru Amlwch
Richard Jones - #Caru Amlwch

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynnig John Byast, eilio Myrddin Owens.
Derbyniwyd un gwelliant – Pwynt 10 – ‘*nad oedd* Cyngor Tref Amlwch yn ymwybodol o'r mater cyn y cyfarfod’.

*The minutes were confirmed a true record. Proposed John Byast, seconded Myrddin Owens.
One amendment was approved – Point 10 – that Amlwch Town Council had not been made aware of the issue prior to the meeting’*

4 Materion yn codi/Matters arising

4.1 Heddlu Gogledd Cymru / North Wales Police

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu eto gyda'r comisiynydd a'i wahodd i gyfarfod y Cyngor gan fod rhai atebion yn parhau heb eu hateb. Nid oes gwybodaeth wedi dod i law hyd yma ynglyn a'r nifer o heddwision Cymraeg.

The clerk was asked to contact the commissioner again to invite him to meet with the Council as some questions remain unanswered. There is no information as yet regarding the number of Welsh speaking officers.

4.2 Peiriannau Arian Parod / Cash Machines

Daw cwynion bod y ddau beiriant (Co-op a Stryd Mona) wedi rhedeg allan o arian dwywaith yn y dyddiau diwethaf. Cytuno bod angen amser i'r cyflenwyr gael dod i ddeall yr angen nawr bod peiriant Barclays wedi mynd. Deallwyd bydd peiriant Co-op ar gael 24 awr y dydd o hyn allan. Mae

Liz Wood yn dal i edrych ar wahanol opsiynnau i gael peiriant arian parod ym Mhorth Amlwch.

There are complaints that the two cash machines (Co-Op and Mona Street) have run out of money on two occasions in the last few days. Agreed that the suppliers need time to understand the demand now that the machine at Barclays is no longer in action. It was understood that the machine at Co-op is now available 24 hours a day. Liz Wood is looking into different options of having a cash machine in the port.

4.3 Cae Chwarae Maes Llwyn Play Area

Deallwyd bod CSYM wedi cytuno newid lleoliad y cae chwarae. Mae angen cadarnhad na fyddai'r Cyngor Tref yn gorfod talu unrhyw gostau cyfreithiol. Nodwyd bod Cyng Richard Jones wedi cysylltu a'r swyddog perthnasol ond heb gael ymateb hyd yma.

It was understood that IACC have agreed to relocate the play area. Confirmation is required that the Town Council won't be liable for any legal costs involved. It was noted that Cllr Richard Jones had contacted the relevant officer but yet to have a reply.

4.4 Cloc y Dref / Town Clock

Diolchwyd i Gordon Warren am gytuno gwneud y gwaith o weindio'r cloc gan nad oes unrhyw un arall a diddordeb. Nodwyd bod Liz Wood yn edrych ar y posibilrwydd o osod peiriant awtomatig i wneud y gwaith.

Gordon Warren was thanked for agreeing to do the work to wind the clock as no one else is interested. It was noted that Liz Wood was looking at the possibility of installing an auto-winder to do the work.

5 Pwyllgorau a Chyrff Allanol/External Meetings and Organisations

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa bod angen paratoi adroddiad ysgrifennedig am gyfarfodydd aallanol. *Members were reminded that they should prepare written statements for external meetings.*

5.1 Trefi Mon

Dosbarthwyd gopi o adroddiad i bawb oedd yn bresennol er gwybodaeth. Cafwyd drafodaeth ar ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru ar gais Horizon am drwydded deunydd ymbelydrol. Cytuno dylai'r clerc ysgrifennu yn gofyn am ddatganiad clir am fwriad y cwmni hir dymor. Mae angen ymateb i'r ymgynghoriad erbyn Ionawr 14, 2018. Cafwyd wybod gan Cyng Aled Jones bydd cyflwyniad ar y mater yng nghyfarfod nesaf yr SSG. Roedd Myrddin Owens wedi 'i siomi mai Magnox eu hunain sydd yn gyfrifol o fonitro eu gwaith ac adrodd yn ol i Cyforth Naturiol Cymru. Teimlwyd nad oedd hyn yn berthynas iach.

Gobeithir byddai'r tri aelod lleol yn gefnogol o gais Trefi Mon am arian tuag at ddatblygu'r systemau CCTV yn eu cymunedau.

Cafwyd wybod gan Myrddin Owens bod y panel cydnabyddiaeth yn bwriadu gorfodi cynghorau tref a chymuned i dalu eu haelodau, costau argraffu, gwarchod plant ayyb. Byddai'n ofynnol i'r cynghorau wneud y taliadau yma, gan olygu cynydd o hyd at 20% yn y dreth. Cytuno yn unfrydol gwrthwynebu'r bwriad, ac os ydi'n cael ei gymeradwyo, ei fod yn ddewisiol i pob Cyngor unigol benderfynu os ydynt yn talu eu haelodau neu peidio.

Copies of a report were distributed to all present for information.

Members discussed Natural Resources Wales' consultation on Horizon's application for a radioactivity permit. Agreed that the clerk should write to ask for a clear statement of the company's long term intentions. A response is required for the consultation by January 14 2018. Cllr Aled Jones noted that there would be a presentation on the matter at the next meeting of SSG. Myrddin Owens was disappointed that Magnox themselves are responsible for monitoring their work and reporting back to Natural Resources Wales. It was felt that this was not a healthy relationship.

It was hoped that the three local members would be supportive of Trefi Mon's application towards developing the CCTV system in their communities.

Myrddin Owens noted that the remuneration panel were intending to make it mandatory for town

and community councils to pay their members, printing costs, childcare costs etc. It would be mandatory to make these payments, resulting in an increase of up to 20% in the rates. Agreed unanimously to object to the proposal, and if it were to be approved that it was up to each individual council to decide whether or not to pay their members.

5.2 Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon / North Anglesey Councils' Partnership

Nododd Gareth Winston Roberts bod y bartneriaeth wedi cwrdd a swyddogion Horizon i ddechrau trafodaethau i ddatblygu dogfen Datganiad Tir Cyffredin fydd i'w gyflwyno fel rhan o gais y cwmni am drwydded i adeiladu'r pwerdy. Bydd y ddogfen yn amlinellu unrhyw bryderon sydd gan y gymuned leol a sut mae Horizon yn bwriadu eu datrys. Bydd mwy o wybodaeth fel mae'r ddogfen yn datblygu. Bydd cyfle hefyd i'r Cyngor ddatblygu dogfen unigol gyda'r cwmni ochr yn ochr a'r bartneriaeth.

Gareth Winston Roberts noted that the partnership had met with Horizon's officers to start the discussions to develop a Statement of Common Ground document to be presented as part of the company's application for a development consent order to build the power station. The document will outline the concerns of the local community and how Horizon proposes to address the concerns. More information will be available as the document develops. There will also be an opportunity for the Council to develop an individual document with the company alongside that of the partnership.

5.3 Cyngor ar Bopeth / Citizen's Advice Bureau

Cafwyd adroddiad gan Gordon Warren yn dilyn y cyfarfod. Deallwyd bod y corff yn gweithio ar ddatblygu un ffurflen pwrpasol i'w ddefnyddio ledled yr ynys ar gyfer cyfeirio pobl at wasanaethau'r banc bwyd. Mae pryder mai dim ond ychydig iawn o oriau agor sydd gan y banc bwyd yn Amlwch, ac mae posib o ddatblygu gwasanaeth danfon er mwyn bod yn fwy hyblyg.

Gordon Warren gave a report following the meeting. it was understood that the body is working to develop a purpose made form to be used island wide for the referral of individuals to the services of the foodbank. There is concern that the Amlwch foodbank is only open for limited hours, there is a possibility of being able to develop a delivery service to be more flexible.

5.4 Pwyllgor Cynllunio CSYM / IACC Planning Committee

Cafwyd wybod bod cais fferm arae haul Llanbadrig wedi ei wrthod, ond ei fod i'w gyflwyno eto ar Ragfyr 6ed. Mae Cymuned Llanbadrig yn gwrthwynebu'r datblygiad yn gryf, ac mae'r Cyngor Tref a Phartneriaeth Cynghorau Gogledd Mon wedi eu cefnogi eu gwrthwynebiad. Roedd y bartneriaeth wedi cytuno y mai ardal Llanbadrig fyddai yn elwa o unrhyw fudd cymunedol fyddai ar gael petai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen. Esboniodd Gareth W Roberts nad oedd beth oedd wedi ei ddatgan yng nghyfarfod y pwyllgor Cynllunio yn gywir a bod y Cyngor Cymuned wedi cwrdd a'r datblygwyr. Yn ystod y drafodaeth fe drafodwyd ffigwr o £300k (+rpi) ond cafodd y panel wybod bod y cwmni wedi trafod cytundeb 106 gyda cynghorwr arall; roedd y panel wedi eu synnu gyda'r datganiad a wnaed gan y cwmni. Teimlai rhai aelodau o'r panel bod hyn yn ymyrraeth.

Roedd Cyng Richard Jones yn datgan diddordeb. Fe ofynnwyd ar ba sail yr oedd yn datgan diddordeb; fe ymatebodd ei fod ar y sail ei fod yn gadeirydd llywodraethwyr yr ysgol uwchradd.

The planning application for the solar farm development at Llanbadrig has been refused, but is to be re-presented on December 6th. Llanbadrig Community Council strongly oppose the development, and the Town Council and North Anglesey Councils Partnership have supported their objection. The partnership had agreed that any community benefit should be for the Llanbadrig area should the development be approved. Gareth W Roberts explained that what had been reported at the planning committee meeting was incorrect and that the community council had met with the developer. During discussions a figure of £300k (+rpi) was discussed but the panel was informed that the company had discussed the 106 agreement with another councillor; the panel was surprised at the statement made by the company regarding the discussion. Some members of the panel felt that this was interference.

Cllr Richard Jones declared an interest. He was then asked on what grounds he declared an interest; he replied that it was on the basis that he is chair of the governors at the secondary school.

5.5 Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned / Town and Community Councils' Forum

Cafwyd grynodedb gan Gordon Warren o'r hyn drafodwyd gyda'r Arolygwr Jason Higgins. Bydd manylion cyswllt swyddogion lleol yr heddlu i'w anfon allan mewn adroddiad gyda'r cofnodion. Nodwyd bod ymgynghoriad ar gyllideb arfaethiedig CSYM 2018/19 yn cymryd lle ar hyn o bryd. Cytuno cynnwys yr eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Gordon Warren gave an overview of the discussion with Inspector Jason Higgins. The contact details for the local policing team are to be sent out with the report and minutes. It was noted that there was a consultation on IACC's proposed budget for 2018/19 taking place at present. Agreed to include as an agenda item for the next meeting.

5.6 Craig y Don

Nid oedd adroddiad gan Liz Wood yn dilyn y cyfarfod ond bydd adroddiad yr arolwg ar gael ym mis Chwefror. Cafwyd wybod gan Myrddin Owens bod pleidlais wedi mynd yn groes i ddymuniad y swyddogion a bod gan CSYM gyfrifoldeb moesol a chyfreithiol i dalu costau am drin y tir fodd bynnag pwy sydd berchen arno. Fe ofynnwyd i'r clerch anfon llythyr at CSYM yn cadarnhau y byddent yn talu am unrhyw waith angenrheidiol ar yr holl diroedd.

Teimlwyd ei fod yn gywilyddus sut mae'r prosiect yn cael ei gynnal, teimlwyd dylai'r Bwrdd Prosiect gael cynrychiolaeth o'r trigolion a'r Cyngor Tref. Deallwyd bod Bwrdd y prosiect yn trafod hyn eto. Cafwyd esiampl gan Cyng Aled Jones sut mae Cyngor Cymuned Llanbadrig ynghlwm a'r pwyllgor sy'n trafod problemau glendid dwr y traeth.

Teimlwyd hefyd bod swyddogion CSYM yn amharchus tuag at Cadeirydd y Grwp Trigolion gan nad oedd wedi cael gweld dogfennau'r cyfarfod ymlaen llaw nac ychwaith wedi cael mewnbwn i reoliadau'r grwp. Gofynnwyd i'r cynghorwyr sirol wneud yn siwr nad oedd hyn yn digwydd eto.

There was no report from Liz Wood following the meeting; however the survey's report is expected in February. Myrddin Owens noted that a vote had gone against the wishes of the officers and that IACC have a moral and legal obligation to pay the costs to make safe all the grounds regardless of ownership. The clerk was asked to write to IACC confirming that they would pay for the necessary works on all the land.

Members felt it was shameful how the project is being conducted; it was felt that the Project Board should have a representative from the residents group and Town Council. It was understood that the Project Board will be discussing this matter again. Cllr Aled Jones gave an example how Llanbadrig Community Council are involved with the committee discussing the issues of water quality at Cemaes.

It was also felt that IACC officers were disrespectful to the Chair of the Residents Group as she had not received any of the meeting's documents prior to the meeting, nor had any input into the group's terms of reference. The county councillors were asked to ensure that this does not happen again.

7 Adroddiad Pwyllgor Cyllid/Finance Committee Report

Cafwyd grynodedb gan Myrddin Owens. Cymeradwywyd nifer o daliadau (rhestr gan y clerch) ac fe gyflwynwyd adroddiad chwarterol o incwm a gwariant y Cyngor hyd yma. Bydd cyfarfod arbennig o'r pwyllgor i drafod y gyllideb i'w gynnal cyn y cyfarfod llawn nesaf. Trafodwyd Polisi Iaith y Cyngor – gweler isod.

Deallwyd gan Myrddin Owens bod bwriad gan Llywodraeth Cymru i drosglwyddo cyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg i'r Ombwdsmon. Nid yw'r Ombwdsmon yn siarad Cymraeg nac yn gallu cadw at ei bolisi iaith ei hun. Cytuno bod y Cyngor yn ysgrifennu at Un Llais Cymru i wrthwynebu'r syniad.

Myrddin Owens gave a summary of the meeting. A number of payments were approved (clerk has a list). A special meeting of the committee is to be arranged to discuss the budget prior to the next full council meeting. The Council's Welsh Language Policy was discussed - see below.

It was understood from Myrddin Owens that the Welsh Government is proposing to transfer the responsibility for the Welsh Language to the Ombudsman. The Ombudsman is not a Welsh speaker

and cannot adhere to his own Welsh Language Policy. Agreed that the Council write to One Voice Wales to object to the idea.

8 Polisi Iaith Gymraeg / Welsh Language Policy

Roedd copi o'r ddogfen ddrafft wedi ei anfon ar yr aelodau ymlaen llaw. Esboniodd Myrddin Owens bod y Pwyllgor Cyllid wedi ystyried dogfen y Comisiynydd Iaith ac wedi ei addasu fel bo'n briodol. Os yw'r Cyngor Llawn yn ei dderbyn, mae angen ei anfon at y Comisiynydd i gael sel bendith cyn gall y Cyngor ei fabwysiadu'r ffurfiol. Cynnigwyd gan Meg Roberts bod y ddogfen yn cael ei addasu eto i gynnwys byddai pob cyfathrebiad yn y Gymraeg yn gyntaf, er mai dyma sydd yn digwydd yn ymarferol beth bynnag. Pawb yn cytuno.

A copy of the draft document had been distributed to all members prior to the meeting. Myrddin Owens explained that the Finance Committee had considered a document provided by the Commissioner for the Welsh Language and that it had been adapted to suit as necessary. If the Full Council agreed to the document, it must be submitted to the Commissioner for approval before it can be formally adopted by the Council. Meg Roberts proposed that the document is amended again to include that all correspondence would be in Welsh first, although this already happens in practice. All in agreement.

9 Adroddiad Parciau a Mannau Agored / Parks and Open Spaces Report

Yn absenoldeb Mike Roberts cadeirydd y pwyllgor, dosbarthwyd copi o'r cofnodion diweddaraf er gwybodaeth. Mae'r pwyllgor wedi cwrdd a chynrychiolwyr #CaruAmlwch i drafod grantiau posib ar gyfer offer chwarae ledled y dref. Mae'r Cyngor yn gefnogol iawn o'r cais wrth gydnabod y byddai unrhyw arolygon a gwaith cynnal a chadw yn disgyn ar y Cyngor.

In the absence of Mike Roberts, Chair of the committee, copies of the minutes of the last meeting were distributed for information. The committee have met with representatives of #CaruAmlwch to discuss potential grants for play equipment throughout the town. The Council fully support the application acknowledging that the responsibility for inspections and maintenance will fall to the Council.

10 Wylfa Newydd

Cafwyd gyflwyniad gan Roger Dobson, Cyngor Cymuned Llanbadrig, yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref i wrthwynebu cais cynllunio Horizon i glirio a pharatoi'r safle cyn i'r trwydded gael ei gymeradwyo. Nid yw'r cwmni yn bwriadu pwyso mlaen gyda gwelliannau i'r lon (tua Fali) nes ar ol i'r trwydded gael ei gymeradwyo. Cytuno'n gryf cefnogi Cyngor Cymuned Llanbadrig i wrthwynebu'r cais cynllunio.

Nodwyd bod sesiwn briffio diweddar wedi cyfeirio at 300 o lefydd parcio i'w ddatblygu yn Amlwch fel rhan o'r prosiect. Deallwyd byddai'r cyfleuster yma ger yr ysgol uwchradd/canolfan hamdden ac roedd pryderon am ddyfodol adnoddau chwarae aon a diogelwch ffordd. Cytuno bod angen cyfarfod gyda swyddogion cyn gynted a phosib i drafod ymhellach a chael y ffeithiau'n gywir. Oedd hyn y cam cyntaf i gau ysgolion gwledig yr ardal?

Fel sydd eisioes wedi trafod, cytuno bod angen mwy o wybodaeth yn ymweud a deunydd ymbyledrol cyn gallu ymateb i'r ymgynghoriad hwnw.

Roger Dobson, Llanbadrig Community Council gave a presentation asking for the support of the Town Council to object to horizon's planning application to clear and prepare the site prior to the consent for development being granted. The company do not intend to press on with the road improvements (towards Valley) until after consent has been granted. Strongly agreed to support Llanbadrig Community Council's objection to the planning application.

It was noted that a recent briefing session had referred to 300 parking spaces being developed in Amlwch as part of the project. It was understood that this facility would be adjacent to the school / sports centre and there were concerns about the future of the sports facilities and road safety. Agreed that a meeting with relevant officers be arranged as soon as possible to discuss further and acquire the facts. Was this the first step to close rural schools in the area?

As already discussed, agreed that further information is required regarding radioactive materials

before being able to draft a response to the consultation.

11 Adolygiad Sector Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru / Review of Town and Community Council Sector in Wales

Dim Sylw / No Comments

12 Gohebiaeth/Correspondence

12.1 Grid Cenedlaethol / National Grid

Daw gwybodaeth gan y corff eu bod yn bwriadu dal yn ol ar eu cais am drwydded nes bydd Horizon wedi cyflwyno eu cais nhw i'r arolygwr cynllunio.

Information was received from the organisation stating that they intend to hold back on their application for development consent until Horizon have submitted their application to the planning inspectorate.

12.2 Pwyllgor Safonau / Standards Committee

Cadarnhawyd wybod mai Cyng Iorwerth Roberts a Keith Roberts sydd wedi eu hethol ar y pwyllgor. *Confirmation that Cllrs Iorwerth Roberts and Keith Roberts had been elected onto the committee.*

13 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

13.1 Mr Daniel ap Eifion Jones

Yn y cyfarfod diwethaf cafwyd wybod bod Mr Jones wedi sgwrsio 'r swyddog monitro. Mae Myrddin Owens wedi cysylltu yn uniongyrchol a'r barnwr am yr un peth. Darlennwyd datganiad gan y barnwr i'r rheini oedd yn bresennol. Ers y diwrnod cafodd ei ddedfrydu, mae Mr Jones wedi ei wahardd fel aelod o'r Cyngor. Cytuno anfon ymateb y barnwr at y swyddog monitro a disgwyl ei hymateb ac ymateb y pwyllgor safonau cyn symud ymlaen. Diolchwyd i Myrddin Owens am ei waith a chydabod bod yn bwysig dilyn y system gywir er tecwch i bawb.

At the last meeting, it was noted that Mr Jones had spoken to the monitoring officer. Myrddin Owens has contacted the Judge directly regarding the matter. The Judge's response was read out to all present. From the day he was sentenced, Mr Jones has been disqualified from being a member of the Council. Agree to send a copy of the judge's response to the monitoring officer and wait her response and that of the standards committee before moving forward. Myrddin Owens was thanked for his work, acknowledging the importance of following the correct systems and ensuring fairness for all.

13.2 Cinio Nadolig Cymunedol / Community Christmas Dinner

Mae grwp wedi dod at eu gilydd i drefnu cinio nadolig am ddim i'r rheini sydd ei angen. Mae'r clerwr wedi argraffu'r tafleni yn hyrwyddo'r prosiect ond mae angen help i'w dosbarthu. Gofynnwyd i unrhyw aelodau oedd yn gallu help i siarad a'r clerwr ar ddiwedd y cyfarfod.

Gofynnwyd i Julie Hughes siarad ag ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa i ofyn am ostynigiad yn y pris gan na fyddai unrhyw un arall am ddefyddio'r Neuadd dydd Nadolig.

A group have come together to arrange a Christmas dinner free of charge to those in need. The clerk has printed some leaflets promoting the project but help is required to distribute them. Members were asked to speak to the clerk at the end of the meeting if they were able to help.

Julie Hughes was asked to speak to the Hall trustees to ask for a reduction in the hire charges as no-one else would want to use the Hall on Christmas day.

13.3 Banc Barclays Bank

Fe ofynnodd Gerry Belanger a fyddai posib cysylltu a'r banc a gofyn iddynt dwtio'r adeilad wedi iddynt symud allan a chau'r gangen.

Gerry Belanger asked that contact be made with the bank asking them to tidy the building following closing the branch and moving out.

13.4 Cystadleuaeth Goleuadau Nadolig / Christmas Lights Competition

Nadwyd bod y gystadleuaeth yn cael ei gynnal eto eleni a bod dau gategori – busnesau a thai.

Mae'r wybodaeth ar gael ar y wefan ac ar facebook (amlwchwebb) ac mae posteri a ffurflenni cais wedi eu dosbarthu yn y dref. Bydd y beirniadu yn cymryd lle nos Fawrth 12/12/2017.

It was noted that the competition is to be held again this year and that there were two categories – businesses and houses. The information is available online and on facebook (amlwch webb) and posters and entry forms have been distributed throughout the town. Judging will take place on Tuesday 12/12/17.

14 Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting

Bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal Nos Fawrth Rhagfyr 19 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.
The next meeting will take place on Tuesday December 28 at 7pm in the Council Chamber.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.20 / *The meeting closed at 20.20.*

Arwyddwyd / Signed:

Gareth Winston Roberts OBE (Cadeirydd / Chair)